# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019

Amser: 09.03 - 10.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5651

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Janet Finch-Saunders AC (Cadeirydd)<br>Michelle Brown AC<br>Neil McEvoy AC<br>Jack Sargeant AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Stephen Jones, Cyngor Sir y Fflint<br>Tom Rippeth, Deisebydd<br>Carolyn Thomas, Cyngor Sir y Fflint<br>Mike Webb, Deisebydd |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Ross Davies (Dirprwy Glerc)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-898 Dylid gwahardd defnyddio byrddau A yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i gasglu tystiolaeth ychwanegol arni gan elusennau, cynrychiolwyr busnesau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 2.2 P-05-899 Bysiau i bobl nid er elw

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am ragor o wybodaeth am y newidiadau y mae'n bwriadu eu cyflwyno drwy'r Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus, yn enwedig ynghylch masnachfreinio a phwerau i awdurdodau lleol redeg gwasanaethau bysiau, a'r amserlen a gynlluniwyd ar gyfer cyflwyno'r Bil.

## 2.3 P-05-900 Ymchwilio i'r ffordd y mae rhieni'n cael eu trin gan y gwasanaethau cyhoeddus

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio trafodaeth gychwynnol ar y ddeiseb tan y cyfarfod nesaf er mwyn galluogi Aelodau i drafod gwybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y deisebydd yn llawn.

## 2.4 P-05-901 Gwahardd Gwerthu Ffwr Anifeiliaid yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am safbwyntiau'r deisebwyr o ran yr ymateb a gafwyd gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig cyn trafod a ddylid cymryd camau pellach ynglŷn â'r ddeiseb.

## 2.5 P-05-902 Iechyd Meddwl Tadau (Iechyd Meddwl Tadau Newydd)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog i ofyn am ymateb i awgrym y deisebydd y dylai tadau newydd gael, neu gael cynnig, asesiad o'u hanghenion iechyd meddwl a chymorth fel rhan o wasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

### 2.6 P-05-903 Ffilmio a Recordio Cyfarfodydd Cyngor

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i ofyn am ei hymateb i'r cynnig y dylai fod hawl i’r cyhoedd a'r wasg recordio ac adrodd ar gyfarfodydd cyngor, gan gynnwys y rhai a gynhelir gan gynghorau tref a chymuned.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys

Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth ychwanegol a chytunodd i aros i Vertex Pharmaceuticals gyflwyno tystiolaeth yn gysylltiedig ag Orkambi i Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan, y mae'r Pwyllgor yn deall ei fod ar fin digwydd, cyn gofyn am ragor o wybodaeth.

### 3.2 P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ychwanegol a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i:

- ofyn am eglurhad o aelodaeth, rôl ac amserlen Is-bwyllgor y Cabinet a sefydlwyd ers y datganiad argyfwng hinsawdd; a
- gofyn pa gefnogaeth a chyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon eu cyfrannu i sefydlu a hwyluso cynulliad dinasyddion ar newid hinsawdd.

### 3.3 P-05-891 Mae angen dod â phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer plant mor ifanc â 6 oed i ben ar unwaith

Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth ychwanegol a chytunodd i ysgrifennu yn ôl at y Gweinidog Addysg i ofyn am ei hymateb i'r pryderon a fynegwyd [?]  gan y deisebydd ynghylch yr angen i sicrhau bod plant yn gyfarwydd â fformat y profion a'r cwestiynau, yn sgil cyflwyno asesiadau personol ar-lein yn raddol.

## 4 Sesiwn dystiolaeth 1: P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

O dan Reol Sefydlog 17.24A gwnaeth Jack Sargeant AC ddatganiad ei fod wedi cefnogi'r Llwybr Coch yn y gorffennol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tom Rippeth, ar ran y deisebwyr, a Mike Webb, a oedd yn cynrychioli Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

## 5 Sesiwn dystiolaeth 2: P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyngor Sir y Fflint.

Cytunodd Cyngor Sir y Fflint i roi copi o adroddiad arolygu diweddaraf Pont Sir y Fflint i'r Pwyllgor.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

## 7 Trafod y sesiwn dystiolaeth flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y sesiynau tystiolaeth blaenorol a chytunodd i ysgrifennu at:

- Amrywiaeth o randdeiliaid amgylcheddol a busnes eraill i ofyn am dystiolaeth ychwanegol ar y ddeiseb a'r Llwybr Coch arfaethedig, a
- Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn rhagor o gwestiynau yn ymwneud â datblygu cynlluniau manwl ynghylch llwybr y ffordd newydd a mesurau lliniaru amgylcheddol arfaethedig.